



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth

Nodiadau Cyfarwyddyd

Yn Agor: 10 Awst 2020

Yn Cau: 18 Hydref 2020

Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth – Nodiadau Cyfarwyddyd

CYNNWYS

	PARAGRAFF
Cyflwyniad a Chefndir	1
Llywodraeth Cymru – Manylion Cyswllt	8
Pwy All Wneud Cais	9
Gweithgareddau Cymwys	10
Costau Cymwys	13
Cyfradd Uchaf y Grant a Throthwy Uchaf y Grant	15
Cymorth Gwladwriaethol	18
Dewis Prosiectau Llwyddiannus	21
Gofynion Eraill	23
Sut i Wneud Cais	26
Amodau'r Grant	37
Talu'r Grant	40
Monitro Prosiectau	43
Diwedd Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth	47
Atodiad 1 – Meini Prawf Dethol	
Atodiad 2 – Enghreifftiau o brosiectau buddsoddi posibl	

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

CYFLWYNIAD a CHEFNDIR

1. Yn ei fanifesto yn 2018 cyhoeddodd y Prif Weinidog Mark Drakeford ei fwriad i ddatblygu Coedwig Genedlaethol i Gymru. Bydd Coedwig Genedlaethol yn cyflawni yn erbyn amrywiaeth eang o flaenoriaethau, gan gynnwys cyfrannu at gynyddu nifer y coed a gaiff eu plannu er mwyn cyfrannu at nodau datgarboneiddio, cynorthwyo i adfer bioamrywiaeth, arwain at effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant corfforol, a chefnogi gweithgarwch busnes masnachol er enghraifft yn sgil cynhyrchu pren a thwristiaeth antur.
2. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn esbonio Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth a'r mathau o brosiectau a allai fod yn gymwys i gael cymorth grant. Darllenwch y nodiadau'n ofalus. Os byddwch o'r farn wedyn y gallai eich cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys i gael grant, ac os dymunwch wneud cais am gymorth dan y cynllun hwn, gweler yr adran 'Sut i wneud cais' isod.
3. Bydd sector coedwigaeth cryf sy'n tyfu yng Nghymru yn hanfodol i gyflawni'r targedau creu coetiroedd Cenedlaethol. Er bod y sector ar y cyfan wedi gwrthsefyll effeithiau Covid-19, mae yna berygl bod yr argyfwng wedi niweidio capasiti contractwyr a busnesau coedwigaeth, yn cynnwys y sector meithrinfeydd coed.
4. Caiff Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth ei ariannu'n ddomestig trwy'r Rhaglen Goedwig Genedlaethol, a bydd yn darparu arian i'r sector i wneud buddsoddiadau cyfalaf er mwyn cynyddu eu capasiti a'i gwneud hi'n bosibl i'r sector gyfrannu at adferiad gwyrdd.
5. Yn bennaf, bydd y cynllun yn darparu buddsoddiad ar gyfer cynyddu capasiti'r sector coedwigaeth. Bydd meysydd cymwys yn cynnwys offer ar gyfer meithrinfeydd coed er mwyn cynyddu eu capasiti i gyflenwi coed, offer ar gyfer paratoi'r tir, offer gwaith diogelwch coed ar gyfer coed sy'n dioddef o'r Clefyd Coed Ynn, ac offer neu dechnoleg briodol sy'n gwella'r gwaith o gynaeafu pren lle dangosir eu bod yn gwella dulliau cynaliadwy o reoli coedwigoedd.
6. Rhaid i fuddsoddiadau arfaethedig ddangos bod marchnad hyfyw wedi'i phennu ar gyfer eu cynnyrch/cynhyrchion ac na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb y grant. Cynllun ar sail disgresiwn yw hwn, a byddai swm y grant a gynigir yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a byddai bob amser yn cyfateb i'r **swm lleiaf y byddai ei angen** i ganiatáu i'r buddsoddiad fynd rhagddo.
7. Dim ond braslun o'r cynllun a'r ffordd y caiff ei weithredu a geir yma, ac mae'n bosibl y bydd rheolau manwl y meini prawf cymhwystra yn newid.

LLYWODRAETH CYMRU – MANYLION CYSWLLT

8. Os hoffech i ffurflen gais gael ei hanfon atoch, anfonwch e-bost i'r cyfeiriad canlynol:
centralgrantsteam@llyw.cymru

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

PWY ALL WNEUD CAIS

9. Mae'r cynllun yn agored i geisiadau gan fusnesau sy'n gysylltiedig â chynaeafu a/neu dyfu coed mewn modd cynaliadwy yng Nghymru ar gyfer eu plannu yng Nghymru.

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

10. Mae cymorth dan y cynllun hwn yn cwmpasu buddsoddiadau diriaethol a fydd yn gwella gallu'r ymgeisydd i wneud y canlynol:
- cynyddu capasiti'r feithrinfa goed i dyfu coed ifanc;
 - a/neu fynd i'r afael â'r gwaith o baratoi'r tir cyn plannu coed;
 - a/neu fynd i'r afael â gwaith diogelwch coed ar gyfer coed sy'n dioddef o'r Clefyd Coed Ynn (Chalara); a/neu
 - wella'r gwaith o gynaeafu pren o deneuon, neu ar goetiroedd anhygyrch, ar raddfa fach, trwy ddefnyddio peiriannau priodol.
11. Mae buddsoddiadau diriaethol yn golygu gwariant cyfalaf a chostau gosod cysylltiedig. Mae gwariant cyfalaf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys buddsoddiadau sefydlog, ffisegol neu anhreuliadwy fel adeiladau, peiriannau ac offer.
12. Gweler **ATODIAD 2** i gael enghreifftiau o brosiectau buddsoddi posibl. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr, a bydd yr holl brosiectau y mae'r meini prawf dethol yn **Atodiad 1** yn berthnasol iddynt yn cael eu hystyried.

COSTAU CYMWYS

13. Gall cymorth dan y cynllun hwn gwmpasu asedau diriaethol fel tir, peiriannau ac offer:
- a) adeiladu, caffael, neu wella eiddo sefydlog, gyda thir yn gymwys dim ond i'r graddau na fydd yn fwy na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
 - b) prynu peiriannau ac offer hyd at werth yr ased ar y farchnad
14. Bydd offer ail law yn gymwys (ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig yn unig) pan fo modd i'r ymgeisydd ddangos y canlynol:
- eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch bresennol;
 - eu bod yn addas i'r diben;
 - bod ganddynt ddisgwyliad oes o bum mlynedd o leiaf ar ôl.

CYFRADD UCHAF Y GRANT A THROTHWY UCHAF Y GRANT

15. Trothwy uchaf y grant fesul busnes ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw oddeutu **£182,000** fesul derbynnydd (= **£455,000** Cyfanswm Cost y Prosiect).

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

16. Trothwy lleiaf y grant fesul busnes ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£5,000**.
17. Mae cyfradd uchaf y grant ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol fel a ganlyn ar gyfer busnesau o bob maint:
 - Os yw cyfanswm cost y prosiect hyd at **£49,999** – hyd at **80%** o gyfanswm y buddsoddiad
 - Os yw cyfanswm cost y prosiect rhwng **£50,000 a £124,999** – hyd at **50%** o gyfanswm y buddsoddiad.
 - Os yw cyfanswm cost y prosiect rhwng **£125,000 a £199,999** – hyd at **50%** o gyfanswm y buddsoddiad.
 - Os yw cyfanswm cost y prosiect yn fwy na **£200,000** – hyd at **40%** o gyfanswm y buddsoddiad.

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

18. Mae busnesau dan y cynllun hwn yn gymwys i gael hyd at 80% o gyfanswm costau'r buddsoddiad, ond fe'u cyfyngir i drothwy uchaf o €200,000 (oddeutu £182,000) dros unrhyw gyfnod o dair blwyddyn gyllidol ni waeth be fo'r lleoliad.
19. Bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr lenwi datganiad yn cadarnhau faint o De minimis y maent wedi'i gael yn barod.
20. Bydd y grant a ddarperir dan y cynllun hwn yn gymorth sy'n cydymffurfio yn unol â Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1407/20135 (Rheoliad De Minimis Cyffredinol).

DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

21. I gael ei ddewis, rhaid i brosiect, fel y bo angen, ddangos:

Yr angen am weithgarwch:

- mae'r allbynnau'n ofynnol a byddant yn cyflawni yn erbyn allbynnau'r Mesur
mae'n ategu gweithgarwch presennol, ac ni fydd yn disodli a/neu'n dyblygu'r gweithgarwch hwn yn ddiangen.

Yr angen am gyllid:

- nid yw'r costau'n eithafol ar gyfer natur y gweithgarwch dan sylw
- mae yna fethiant yn y farchnad neu fwlch ariannu, lle bo'n berthnasol.

Y gallu i gyflawni:

- hyfywedd y busnes
- cydymffurfiaeth gyfreithiol

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

- hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd y prosiect, gan gynnwys strategaeth ymadael
 - cefnogaeth ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol
 - trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso'r prosiect.
22. Po fwyaf yw pwysigrwydd y prosiect a'r cyfraniad y gall buddsoddiad y prosiect ei wneud at yr amcanion strategol a thematig priodol, po fwyaf tebygol yw'r prosiect o gael ei argymhell ar gyfer ei ddewis.

GOFYNION ERAILL

23. Bod marchnad (hyfyw) arferol i'w chael ar gyfer cynnyrch/cynhyrchion y prosiect.
24. Na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth grant.
25. Rhaid i'r ceisiadau ddangos bod y canlynol, pan fo hynny'n berthnasol, wedi cael sylw hefyd (gweler **adran 4** y **Ffurflen Gais**):
- cafwyd caniatâd cynllunio amlinellol, lle bo angen
 - rhoddwyd pob caniatâd, trwydded a chaniatâd arall, lle bo angen
 - ar gyfer busnesau presennol, hyfywedd economaidd ac ariannol y prosiect a'r busnes, drwy ddarparu unrhyw gyfrifon rheoli ers y gyfres olaf o gyfrifon a gyflwynwyd i Dŷ'r Cwmnïau a'r rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect
 - cydymffurfiaeth â'r Gyfraith o ran cyfle cyfartal, a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol
 - rhaid recriwtio staff allweddol trwy gystadleuaeth deg ac agored
 - cydymffurfiaeth â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â'r amgylchedd a safonau iechyd a diogelwch
 - argaeledd y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol o fewn y busnes
 - cyrraedd y radd 'Rhagorol', neu ragori arni, dan fframwaith asesu amgylcheddol BREEAM, neu safon gyfatebol lle bo angen
 - anelu at allyriadau di-garbon ar gyfer pob adeilad newydd.

SUT I WNEUD CAIS

26. I gael ffurflen gais, anfonwch e-bost at centralgrantsteam@llyw.cymru. Yna, byddwch yn cael eich rhoi ar borth ar-lein diogel lle bydd modd rhannu'r ffurflen yn ddiogel gyda chi.
27. Caiff ceisiadau eu cyflwyno mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'i gilydd a disgwylir y bydd galw mawr am y grant sydd ar gael. Bydd busnesau'n cael eu gwahodd i gyflwyno cynigion amlinellol ar gyfer buddsoddiadau newydd. Caiff y cynigion hynny eu hasesu yn erbyn meini prawf a fydd yn dangos gwerth disgwylidig y buddsoddiad neu'r prosiect.

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

28. Bydd y ceisiadau'n cael eu sgorio a'u graddio yn nhrefn eu teilyngdod yn ôl y meini prawf dethol cyhoeddedig (Atodiad 1). Bydd cynigion prosiect yn cael eu dewis yn eu trefn hyd nes y bydd yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu neu hyd nes cyrraedd uchafswm nifer y ceisiadau. Nid oes sicrwydd y bydd yr holl arian yn cael ei ddyrannu nac y gwahoddir uchafswm nifer y prosiectau.
29. Dewisir yr haen gyntaf o brosiectau a bydd llinell yn cael ei thynnu pan fydd cyllideb y cylch hwn wedi'i hymrwymo'n llawn.
30. Ar ôl yr 14 diwrnod, dewisir ail haen o brosiectau er mwyn defnyddio'r gyllideb i gyd, pe bai unrhyw brosiectau yn yr haen gyntaf yn gwrthod y cynnig neu'n peidio ag ymateb.
31. Bydd hyn yn parhau am hyd at ddwy haen os bydd y gyllideb yn caniatáu.
32. Bydd y cais yn destun gwerthusiad diwydrwydd dyladwy llawn, ynghyd â gwiriadau cymhwysedd, a dim ond wedyn y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud i gynnig grant neu wrthod y cais. Nid oes sicrwydd y bydd cynnig prosiect yn cael ei gymeradwyo ar gyfer grant. Bydd y broses o arfarnu ceisiadau yn cael ei chwblhau cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn cais wedi'i lenwi'n â'r holl wybodaeth berthnasol.
33. **Ni ddylech ddechrau ar unrhyw waith hyd nes y byddwch wedi cael cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru. Yn achos unrhyw brosiectau a fydd yn torri'r rheol hon, ni fyddant yn cael eu hystyried ar gyfer grant.**
34. **Cewch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch, ond rhaid i'r ffurflen gais gael ei llofnodi gennych chi yn hytrach na chan yr ymgynghorydd. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir a bod yr wybodaeth a gyflwynir i ategu eich prosiect yn gywir.**
35. Pan fyddwch yn cyflwyno eich ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod wedi'i derbyn. Os na fydd eich prosiect yn gymwys, byddwch yn cael gwybod hyn cyn gynted â phosibl. Os bydd eich cais yn gymwys, bydd yn destun arfarniad technegol ac ariannol manwl. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd cymorth ar gyfer eich cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n bodloni amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, fel y nodir uchod.
36. Mae yna dri chanlyniad posibl:
 - a) ni chaiff eich prosiect ei ddewis ar gyfer y grant. Byddwch yn cael gwybod cyn gynted â phosibl.
 - b) mae eich prosiect yn gymwys i gael ei ystyried, ond ni chaiff grant ei ddyfarnu. Byddwch yn cael gwybod y rhesymau pam na fu eich cais

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

yn llwyddiannus. Gallwch gyflwyno cais arall gyda'r un prosiect ar gyfer unrhyw un o rowndiau Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn y dyfodol.

- c) mae eich prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad grant. Bydd llythyr cymeradwyo yn cael ei anfon atoch yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a gofynnir i chi ei lofnodi fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau a'r amodau ynddo.

AMODAU'R GRANT

- 37. Mae Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn ddarostyngedig i ystod o ddeddfwriaethau perthnasol. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynydd ymddwyn yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.
- 38. Caiff grant Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth ei gynnig yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ganslo eich dyfarniad a/neu adennill symiau a dalwyd eisoes, neu leihau swm y grant sy'n daladwy.**

Amodau:

- 1. Rhaid derbyn y grant a ddyfernir o fewn un deg pedwar (14) diwrnod i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.
- 2. Gwneir y dyfarniad ar sail datganiadau a gyflwynwyd gennych chi neu eich cynrychiolwyr yn y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilydol.

Mae gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol yn drosedd.

- 3. Ni ddylech ddechrau unrhyw waith ar y prosiect heb gael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru yn gyntaf.
- 4. Rhaid i chi fodloni unrhyw ymrwymadau cyfreithiol sy'n berthnasol dan y gyfraith, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid.
- 5. Ni ellir cyflwyno unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
- 6. Yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect ac am bum mlynedd o ddyddiad gorffen y prosiect, ni ddylai unrhyw offer a/neu adeiladau a brynwyd gyda chymorth grant gael eu gwaredu, eu trosglwyddo na'u gwerthu heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- 7. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn Nodyn Cyfarwyddyd perthnasol y Cynllun.
- 8. Rhaid cyflwyno hawliadau yn y fformat cywir a dylid cynnwys yr holl

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

ddogfennau angenrheidiol gyda nhw. Fel arall, ni fyddant yn cael eu derbyn a byddant yn cael eu dychwelyd at yr hawlydd.

9. Rhaid cyflwyno ceisiadau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni chewch newid amseru na gwerth cytunedig eich hawliadau heb gytundeb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
10. Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni allwch newid yr amserlen heb gael cytundeb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.
11. Rhaid i chi gadarnhau nad oes unrhyw rai o'r eitemau yr ymdrinnir â nhw yn y cais yn eitemau cyfnewid dan hawliad yswiriant.
12. Rhaid i chi roi cadarnhad na ofynnwyd am unrhyw arian cyhoeddus arall (boed o ffynonellau'r UE neu'r DU).
13. Rhaid i unrhyw gyhoedduswydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y rhan a chwaraeodd Llywodraeth Cymru yn ei ariannu.
14. Rhaid cadw cofnodion yn ymwneud â gweithgarwch y busnes a'r gwaith o gyflawni'r prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill fel tendrau neu ddyfynbrisiau cystadleuol, am o leiaf saith mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect, fel y nodir yn y llythyr cymeradwyo grant hwn.
15. Rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Comisiwn Archwilio archwilio'r prosiect. Ar gais, rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu roi mynediad iddynt at ddogfennau gwreiddiol yn ymwneud â'r prosiect.
16. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac mewn unrhyw ddogfennau ategol yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 Llywodraeth Cymru.

Os byddwch yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu eich cwmni, swm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.

Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus

39. I gael arweiniad ar y gofynion mae'n rhaid i bob ymgeisydd eu dilyn, gweler Nodiadau Cyfarwyddyd Technegol Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru:

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

<http://gov.wales/docs/drah/publications/160704-competitive-tendering-and-public-procurement-technical-guidance-notes-en.pdf>

TALU'R GRANT

Hawliadau

40. Cewch wneud hawliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Bydd nodiadau cyfarwyddyd ar sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi pan gaiff y dyfarniad ei gadarnhau a byddwch yn cael gwahoddiad i hawlio. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod gwariant perthnasol wedi digwydd, a bod y gwaith wedi cael ei gwblhau yn unol â'r cynllun, y telir hawliadau. Bydd y taliad yn cael ei wneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.
41. Dylai hawliadau terfynol am daliad grant gael eu cyflwyno cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r gwaith ffisegol ar y prosiect gael ei gwblhau. Rhaid i'r holl offer gael eu prynu a rhaid i'r holl waith adeiladu gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2021. Rhaid i'r holl hawliadau terfynol gael eu cyflwyno erbyn 21 Ebrill 2021, er mwyn i Lywodraeth Cymru allu talu'r taliad. Gallai peidio â chyflwyno hawliadau arwain at adennill y grant a dalwyd hyd yma.
42. Yn ystod oes y grant, pan gyflwynir hawliadau, mae'n bosibl y byddant yn destun gwaith craffu er mwyn sicrhau bod y gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol, ymwelir â safle'r prosiect a chynhelir asesiad manwl o'r prosiect. Mae'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad yn cynnwys; anfonebau gwreiddiol, rhifau cyfresol/peiriannau, tystysgrif gwblhau Rheoliadau Adeiladu (lle bo'n briodol), system lechyd a Diogelwch gan gynnwys dadansoddi risg, dogfennau Asesiad Risg Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, cofnodion rheoli plâu ac unrhyw gofnodion rheoli statudol eraill mae'n ofynnol i'r busnes eu cadw. Bydd rhyddhau'r grant yn amodol ar sicrhau cynnydd digonol.

MONITRO PROSIECTAU

43. Bydd gofyn i chi roi diweddariadau rheolaidd am gynnydd y prosiect, ac ymhen tri mis ar ôl ei gwblhau bydd gofyn i chi gyflwyno adroddiad terfynol ar ei berfformiad, pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau a nodir yn y cais a gymeradwywyd. Os na fydd y prosiect wedi llwyddo i gyrraedd y targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, os na fyddai wedi bod yn gymwys i gael cymorth grant dan y cynllun, gellir cymryd camau i adennill y grant a dalwyd.
44. Un o ofynion y dyfarniad grant yw y bydd yn rhaid cadw offer a brynwyd gyda chymorth grant Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth, ac unrhyw adeiladau y telir grant ar eu cyfer, ar y safle, yn weithredol ac mewn cyflwr da, a'u defnyddio ar gyfer yr un pwrpas a nodir yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd o ddyddiad gorffen y prosiect. Pwrpas hyn yw sicrhau hirhoedledd y prosiect a gwarantu

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

cyfran barhaus o fuddion y prosiect i gynhyrchwyr cynradd. Os na chedwir at y gofyniad hwn, gellir cymryd camau i adennill y grant a dalwyd.

45. Ymwelir â chanran o'r prosiectau a gymeradwyir o fewn pum mlynedd i ddyddiad gorffen y prosiect er mwyn sicrhau bod gan yr ymgeisydd yr adeiladau a/neu'r offer a brynwyd gyda'r grant o hyd a'i fod yn parhau i'w defnyddio, ac er mwyn sicrhau bod y busnes yn perfformio'n ôl y disgwyl.
46. Rhaid i chi ganiatáu i swyddogion o Lywodraeth Cymru, neu eu cynrychiolwyr, archwilio'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwn o bum mlynedd.

DIWEDD CYNLLUN ADFER Y DIWYDIANT COEDWIGAETH

47. Rhaid i'r holl offer gael eu prynu a rhaid i'r holl waith adeiladu gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2021, a rhaid i'r hawliadau terfynol gael eu cyflwyno erbyn 21 Ebrill 2021.

Atodiad 1

Meini Prawf Dethol

Bydd cynigion ar gyfer Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn cael eu sgorio trwy ddefnyddio system sgorio 0 – 4, a bydd y sgôr yn cael ei lluosu â'r ffactor pwysoli cysylltiedig i roi cyfanswm sgôr.

Trothwy Ansawdd

Bydd prosiectau a gaiff sero ar gyfer meini prawf 1, 2 a 3 yn cael eu heithrio o'r broses ddethol.

	Meini Prawf â Blaenoriaeth	Sgôr	Ffactor Pwysoli
1	Cynyddu capasiti meithrinfeydd coed i dyfu coed ifanc i'w plannu yng Nghymru	0 i 4	X 3
2	Cynyddu capasiti busnesau Coedwigaeth yng Nghymru i fynd i'r afael â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">• y gwaith o baratoi'r tir cyn plannu coed;• neu waith diogelwch coed ar gyfer coed sy'n dioddef o'r Clefyd Coed Ynn (Chalara)	0 i 4	X 1
3	Gwella'r gwaith o gynaeafu pren o deneuon, neu ar goetiroedd anhygyrch, ar raddfa fach, trwy ddefnyddio peiriannau priodol	0 i 4	X 1
4	Bydd gwerth am arian yn cael ei fesur yn erbyn y ganran o gyfanswm cost y prosiect. Bydd y gwerth gorau (y ganran isaf o gost y prosiect) yn cael y pwyntiau uchaf a bydd y prosiectau sy'n weddill yn cael cyfran <i>pro rata</i> o'r prosiect gwerth gorau.	0 i 4	X 1

Maen Prawf 1

Cynyddu capasiti meithrinfeydd coed i dyfu coed ifanc i'w plannu yng Nghymru

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

- 0 pwynt Prosiectau nad ydynt yn dangos llinell sylfaen glir ar gyfer gwella.
- 1 pwynt Prosiectau a chanddynt linell sylfaen wan neu rai nad ydynt yn cynnwys llawer o fanylion.
- 2 bwynt Prosiectau a chanddynt linell sylfaen ddiffiniedig ac sy'n dangos gwelliannau cymedrol o ran eu capasiti i dyfu coed ifanc i'w plannu yng Nghymru.
- 3 phwynt Prosiectau a chanddynt linell sylfaen ddiffiniedig ac sy'n dangos achos cryf dros welliannau sylweddol o ran eu capasiti i dyfu coed ifanc i'w plannu yng Nghymru.
- 4 pwynt Prosiectau a chanddynt linell sylfaen hynod ddiffiniedig sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer 3 phwynt ac sy'n cyflwyno achos hynod argyhoeddiadol a chredadwy y bydd y buddion rhagamcanol yn cael eu cyflawni.

Maen Prawf 2

Cynyddu capasiti busnesau Coedwigaeth yng Nghymru i fynd i'r afael â'r gwaith o baratoi'r tir cyn plannu coed, neu waith diogelwch coed ar gyfer coed sy'n dioddef o'r Clefyd Coed Ynn (Chalara).

- 0 pwynt Prosiectau nad ydynt yn dangos llinell sylfaen glir ar gyfer gwella.
- 1 pwynt Prosiectau a chanddynt linell sylfaen wan neu rai nad ydynt yn cynnwys llawer o fanylion.
- 2 bwynt Prosiectau a chanddynt linell sylfaen ddiffiniedig ac sy'n dangos gwelliannau cymedrol o ran cynyddu capasiti busnesau Coedwigaeth yng Nghymru i fynd i'r afael â'r gwaith o baratoi'r tir cyn plannu coed, neu waith diogelwch coed ar gyfer coed sy'n dioddef o'r Clefyd Coed Ynn (Chalara).
- 3 phwynt Prosiectau a chanddynt linell sylfaen ddiffiniedig ac sy'n dangos achos cryf dros welliannau sylweddol o ran cynyddu capasiti busnesau Coedwigaeth yng Nghymru i fynd i'r afael â'r gwaith o baratoi'r tir cyn plannu coed, neu waith diogelwch coed ar gyfer coed sy'n dioddef o'r Clefyd Coed Ynn (Chalara).
- 4 pwynt Prosiectau a chanddynt linell sylfaen hynod ddiffiniedig sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer 3 phwynt ac sy'n cyflwyno achos hynod

Fersiwn Rhif 1

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2020

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

argyhoeddiadol a chredadwy y bydd y buddion rhagamcanol yn cael eu cyflawni.

Maen Prawf 3 – Gwella'r gwaith o gynaeafu pren o deneuon, neu ar dir serth a choetiroedd anhygyrch, ar raddfa fach, trwy ddefnyddio peiriannau priodol yn cynnwys; er enghraifft: sgidiwr; peiriannau cynaeafu a chludo llai; technoleg briodol o fath arall y dangoswyd ei bod yn gwella dulliau cynaliadwy o reoli coedwigoedd a chydnerthedd adnoddau naturiol yn cynnwys cyflenwi pren cynaliadwy o Gymru.

- 0 pwynt Prosiectau'n ymwneud ag offer nad ydynt yn addas ar gyfer teneuo neu nad ydynt yn gweddu i'r goedwig neu'r coedwigoedd lle byddant yn cael eu defnyddio.
- 1 pwynt Pan na ddangosir unrhyw gynnydd mewn cyflenwad cynaliadwy o bren o Gymru.
- 2 bwynt Prosiectau lle ceir peth cynnydd o ran cynaeafu coed o deneuon neu sy'n golygu defnyddio dulliau teneuo neu Goedwigoedd Gorchudd Di-dor fel dulliau rheoli yn hytrach na llwyrgwmpo, ond sydd wedi'u lleoli'n bennaf mewn coetiroedd a gaiff eu rheoli eisoes.
- 3 phwynt Prosiectau sy'n dangos y byddant yn cyflwyno dulliau cynhyrchu cynaliadwy mewn coetiroedd nas rheolir, cyn belled ag y caiff arferion llwyrgwmpo eu cyfyngu i ardaloedd hanfodol yn unig.
- 4 pwynt Prosiectau hynod ddiffiniedig sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer 3 phwynt ac sy'n cyflwyno achos hynod argyhoeddiadol a chredadwy y bydd y buddion rhagamcanol yn cael eu cyflawni.

Maen Prawf 4 – Fe'i cyfrifir ar sail gwybodaeth a gyflwynir yn y cais

Bydd gwerth am arian yn cael ei fesur yn erbyn y ganran o gyfanswm cost y prosiect. Bydd y gwerth gorau (y ganran isaf o gost y prosiect) yn cael y pwyntiau uchaf a bydd y prosiectau sy'n weddill yn cael cyfran *pro rata* o'r prosiect gwerth gorau.

Atodiad 2 – Enghreifftiau o brosiectau buddsoddi posibl

Mae enghreifftiau o'r mathau o brosiectau a gweithgareddau a allai gael cymorth dan Gynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth yn cynnwys:

Cymorth gydag offer meithrinfeydd:

- Addasu peiriannau er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Covid.

Argaeledd hadau:

- Adnabod cellïoedd
- Capasiti prosesu hadau

Offer ar gyfer paratoi'r safle:

- Rheoli rhedyn/defnyddio rhedyn fel tomwellt
- Chwistrellwr cemegol ar feic cwad
- Enviro Mounder
- Darparu Uned Llesiant sydd uwchlaw'r safonau hanfodol

Offer Arbenigol ar gyfer Rheoli Coed Ynn:

- Llafnau torri coed/peiriant sylfaen
- Lletemau Cwmpo Mecanyddol
- Dronau at ddibenion archwilio

Offer rheoli – technoleg fonitro:

- Dronau
- Meddalwedd Asesu

Offer mesur:

- Caliperau electronig
- Offer laser
- Offer acwstig